Cadeirydd /Chairman:
The Revd Canon Edward J Evans
15 St. Andrews Road,
Bridgend,
CF31 1RX
e-bost/e-mail: ejevans972@btinternet.com
ffôn/ tel : 01656 655511 / 07968 044583

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Paula Webber
EAS Offices
Tredomen Gateway
Tredomen Park
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7EH
e-bost/e-mail: WASACRE@sewaleseas.org.uk
ffôn/ tel: 07904 644728

23 Ionawr 2020

Annwyl Gyfarwyddwyr Addysg,

Yng nghyfarfod diweddar Cymdeithas CYSAGau Cymru, cafodd yr aelodau adborth gan y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) a chawsant wybod bod mwy a mwy o ysgolion yng Nghymru yn chwilio am ddulliau gwahanol i gwrdd â'u darpariaeth statudol ar gyfer Addysg Grefyddol (AG) yng Nghyfnod Allweddol 4.

Ar hyn o bryd yng Nghymru dim ond un fanyleb sydd ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol. Mae hyn wedi'i gwneud yn fwy anodd i ysgolion gynnig cymhwyster i'r dysgwyr sy'n dewis Astudiaethau Crefyddol fel opsiwn a'r dysgwyr AG statudol, sydd hefyd yn cynnig gwerth i ysgolion, o safbwynt cyrraedd targedau perfformiad. O ganlyniad mae PYCAG yn gweld tuedd cynyddol i ysgolion wneud i ffwrdd â'r cymhwyster cwrs byr Addysg Grefyddol (ac mewn rhai achosion y cymhwyster cwrs llawn) a'i newid am gwrs 'haws', unedol, seiliedig ar sgiliau, gan yr NCFE mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (neu debyg), sy'n dod â nifer uwch o bwyntiau perfformiad i ysgolion (cynifer â dau TGAU Lefel 2 cyfatebol fe gredwn). Fodd bynnag, gwyddom hefyd gan ein cydweithwyr yn PYCAG mai dim ond trosolwg arwynebol o rai agweddau o'r maes llafur cytûn y mae'r cyrsiau hyn yn eu cynnig. Byddai angen cryn dipyn o gynllunio ac ychwanegu cynnwys sylweddol gan arbenigwr AG yn yr ysgol i sicrhau fod gofynion y maes llafur cytûn yn cael eu bodloni'n llawn.

Mae CCYSAGauC yn hynod o bryderus am hyn ac yn ei gyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd 2019, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru yn gofyn iddynt atgoffa pob ysgol yn eu hawdurdod am eu cyfrifoldeb cyfreithiol tuag at ddysgu AG.

Felly, fe'ch atgoffir gyda dyledus barch ei bod yn ofynnol cyfreithiol fod pob dysgwr sydd wedi'u cofrestru mewn ysgol yn eich awdurdod lleol yn cael dysgu AG yn ôl y maes llafur y cytunwyd arno'n lleol, oni bo disgybl wedi cael ei dynnu'n ôl o AG yn ffurfiol ar gais rhiant neu warcheidwad. Byddai CCYSAGauC a PYCAG yn gwerthfawrogi pe bai'r neges hon yn cael ei hatgyfnerthu yn ysgolion eich awdurdod. Y maes llafur cytûn ar hyn o bryd i'ch awdurdod lleol yw'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (2008). Mae tudalennau 28 i 30 o'r fframwaith yn gosod allan beth ddylai gael ei astudio yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae'r fframwaith yn datgan y

dylai pob dysgwr gael mynediad teg at gymwysterau sy'n seiliedig ar y dysgu a amlinellir yn y fframwaith. Nid yw'r cymhwyster Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn asesu'n ddigonol y dysgu a bennwyd yn y fframwaith ar gyfer AG ac felly, ni ellir ei ystyried yn gymhwyster sy'n asesu'r hyn mae disgyblion wedi'i ddysgu mewn AG.

O ganlyniad, os oes unrhyw ysgol yn eich awdurdod lleol yn dewis gadael AG Cyfnod Allweddol 4 o blaid addysgu'r cymhwyster hwn ar ei ben ei hun (neu un tebyg), byddai'n golygu na fyddai'r ysgol yn cyflawni ei rhwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu AG i bob dysgwr cofrestredig (ac eithrio'r rhai sy'n cael eu tynnu'n ôl) yn ôl y maes llafur AG y cytunwyd arno. Mae CCYSAGauC a PYCAG felly yn gobeithio, cyn i benderfyniad o'r fath gael ei wneud, y bydd y rheiny sy'n gyfrifol am gynllunio'r cwricwlwm yn yr ysgolion yn eich awdurdod lleol yn ystyried goblygiadau penderfyniad o'r fath. Pe bai unrhyw ysgol yn dymuno dysgu cwrs Cydraddoldeb ac Amrywiaeth NCFE (neu debyg), dylai gael ei gynnig yn ychwanegol at AG Cyfnod Allweddol 4.

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn yn cael ei dderbyn yn yr ysbryd cefnogol yr ysgrifennwyd ef. Byddai fy nghydweithwyr a minnau yn CCYSAGauC a PYCAG yn hapus i drafod cynnwys y llythyr hwn gyda chi yn bersonol, ac yn wir byddem yn croesawu'r cyfle i wneud hynny.

Yn gywir,



Parchedig Ganon Edward J Evans
Cadeirydd CCYSAGauC